Eisteddfod Llanwrtyd 2024

Fe gynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd eleni ar ddydd Sadwrn, Medi 28ain yn Neuadd Fictoria.

Y plant lleol fu'n cystadlu yn sesiwn y bore. Llongyfarchiadau i Magi Gwen Davies, Beulah am ennill y wobr ar gyfer y cystadleuydd mwyaf amryddawn sef cwpan er cof am y diweddar Madam Carlton, yn roddedig gan Dr Delyth Hurley.

Iori Hughes o Lanwrtyd oedd cystadleuydd gorau y Cyfnod Sylfaen gan ennill gwpan yn roddedig gan Mrs Alison Underhill, un o gyn-athrawon Ysgol Dôlafon, Llanwrtyd.

Mrs Andrea Moore o Lanymddyfri fu'n beirniadu'r cystadlaethau arlunio a llaw-ysgrifen yn sesiwn y bore.

Tro'r ieuenctid o dalgylch ehangach oedd hi yn y prynhawn ac unwaith eto roedd yna gystadlu brwd o safon uchel. Dyfarnodd y beirniaid, Esyllt Thomas a'r Prifardd Tudur Dylan Jones mai Ioan Joshua Mabbutt o Aberystwyth oedd y cystadleuydd mwyaf rhagorol yn sesiwn y prynhawn ac fe enillodd gwpan hardd yn rhoddedig gan Charcroft Electronics Ltd, Llanwrtyd, sydd wedi bod yn noddwyr hael iawn i'r Eisteddfod leol hon am flynyddoedd lawer.

Llywyddion yr Eisteddfod eleni oedd Mr Bryn Davies a Mr Elfed Jones. Dymunasant pob llwyddiant a hir oes i'r ŵyl flynyddol hon sydd yn rhan bwysig o'n hanes a'n treftadaeth ni fel cenedl. Yn ystod ei araith yn sesiwn y bore, soniodd Bryn Davies, un o gyn-brifathrawon Ysgol Dôlafon, am bwysigrwydd yr eisteddfod, a diolchodd i'r plant oedd yn bresennol am eu cyfraniad.

Robert Jenkins oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth yr Her Unawd yn ogystal â'r Unawd Gymraeg – camp yn wir mewn cystadlaethau o safon uchel. Elan Mari Mabbutt o Aberystwyth oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth yr Her Adroddiad a Gwyn Jones o Lanafan ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth yr Emyn Dôn dros 60 oed. Ioan Joshua Mabbutt gipiodd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Unawd Allan o Sioe Gerdd yn ogystal â'r Unawd Emyn Dôn 18 – 60 oed.

Diolch i Gôr Merched Llanfair-ym-Muallt o dan arweiniad Ionwen Davies am gefnogi'r eisteddfod eto eleni. Braf hefyd oedd croesawu Bechgyn Bro Taf i Lanwrtyd a llongyfarchiadau mawr iddynt ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Côr o dan arweiniad Richard Vaughan.

Simon Lilly o Gefngorwydd gafodd ei gadeirio ac roedd wedi ysgrifennu cerdd ar y teitl ‘Miracle’.

Yn wreiddiol o Solihull, Swydd Warwick mae Simon wedi byw yng Nghefngorwydd ers deng mlynedd bellach a deuai ef a’i frawd-efaill ynghyd â’u rhieni ar wyliau i'r ardal hon yn rheolaidd. Fe’i addysgwyd yn ysgolion Solihull ac ym Mhrifysgol Caeredin ac wedi iddo gwrdd â'i wraig Sue, symudon nhw i Ddyfnaint ac yna i Siapan lle bu’r ddau yn dysgu ac yn darlithio. Mae Sue a Simon yn artistiaid lleol ac yn arddangos eu gwaith yn rheolaidd yng Nghanolfan Dreftdaeth a Chelfyddydau Llanwrtyd a’r Cylch. Mae Simon yn hoff iawn o astudio’r beirdd cynnar megis Taliesin ac fe’i ysbrydolwyd yn fawr gan Lyfr Du Caerfyrddin.

Llongyfarchiadau iddo ac hefyd i Hannah Roberts o Gaerdydd a ddaeth yn ail.

Diolch arbennig i Heather Davis, cyfeilydd y bore, ac i Jonathan Morgan, cyfeilydd y prynhawn a’r hwyr. Diolch hefyd i Gill Lloyd, Elin Mabbutt a Steve Mason am arwain y sesiynau yn ystod y dydd.

Ar ddiwedd yr Eisteddfod diolchodd Hywel Davies, cadeirydd y pwyllgor i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr ŵyl - y cystadleuwyr; yr holl noddwyr; yr arweinyddion; y stiwardiaid a’r ffrindiau fu’n gweini lluniaeth yn y gegin.

Fe gynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd 2025 ar ddydd Sadwrn, Medi 27ain. Os am fwy o fanylion cysyllter â’r ysgrifenyddes – Susan Price (rhif ffôn: 01591 610 303).